



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Cyfuno taliadau uniongyrchol

First published: 19 March 2019

Last updated: 25 September 2022

This document was downloaded from socialcare.wales and may not be the latest version.

Go to <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/gofal-a-chymorth-yn-y-cartref/cyfuno-taliadau-uniongyrchol> for the latest version.

Dysgwch fwy am gyfuno taliadau uniongyrchol

Beth yw cyfuno taliadau uniongyrchol?

Efallai y bydd gan nifer o bobl anghenion cymorth tebyg, ac efallai y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cyfuno rhywfaint o'u taliadau uniongyrchol i drefnu gweithgareddau neu wasanaethau ar y cyd.

Mae cyfuno taliadau'n golygu cymryd rhywfaint o'ch taliadau uniongyrchol a'i ychwanegu at daliadau un neu fwy o bobl i brynu gwasanaeth gyda'i gilydd.

Gallwch gael mwy am eich arian trwy rannu costau gweithgareddau, a chael cyfle i dreulio mwy o amser gyda phobl eraill.

Gall y rheiny sy'n ystyried gweithio gydag eraill i reoli neu gyfuno eu taliadau uniongyrchol ddarganfod mwy mewn [pecyn cymorth a gynhyrchwyd gan Anabledd Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru](#).

Astudiaeth achos: sut y cyfunodd grŵp o bobl eu taliadau uniongyrchol i rannu gwasanaethau cymorth

Mae David, Geth, Elin a Jo yn bobl ifanc ag anawsterau dysgu sy'n adnabod ei gilydd o'r coleg.

Roedd pob un ohonyn nhw eisiau byw yn annibynnol ond roedd angen cymorth arnynt i wneud hynny. Mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, roedd modd

iddynt rannu tŷ a sicrhau gwasanaethau cymorth ar y cyd.

Symudon nhw i dŷ gyda'i gilydd a chyfuno eu taliadau uniongyrchol i dalu am y cymorth 24 awr roedden nhw'n ei rannu.

Mae'r enghraifft hon yn dangos sut roedd pobl ifanc yn gallu rheoli sut maen nhw'n byw eu bywydau.

Gan fod ganddynt anghenion a dyheadau tebyg, roedd modd iddyn nhw rannu'r cymorth yr oedd arnynt ei angen i fyw'n annibynnol gyda'u ffrindiau.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint [ganllaw ar gyfuno taliadau](#).

Eisiau eich adborth

Helpwch ni i wella Taliadau uniongyrchol: Canllaw drwy gael dweud eich dweud amdano yn ein [harolwg pedair cwestiwn byr](#).